# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 4 Chwefror 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud at gyflawni cysylltiad rheilffordd cyflym rhwng Llundain a De Cymru. (WAQ55565)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd ati i wella'r gwasanaethau trên rhwng De Cymru a Llundain fesul cam.

Yn y byrdymor, rydym yn gweithio gyda First Great Western Trains i wella amseroedd teithio a phrydlondeb cyffredinol. Un enghraifft o hyn yw'r daith 05:58 o Abertawe i Lundain Paddington sydd bellach yn rhedeg yn gyflymach drwy osgoi stopio yn Reading a Didcot.

Yn y tymor canolig, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i drydanu prif lein Great Western rhwng Abertawe a Llundain erbyn 2017. Disgwylir i hyn arwain at amseroedd teithio cyflymach fyth a newid sylweddol i deithio ar y trên yn gyffredinol.

Yn yr hirdymor, rydym yn cydweithio'n agos â'r Adran Drafnidiaeth a'i his-gwmni, High Speed Two, i greu achos o blaid buddsoddi mewn rheilffyrdd High Speed Rail newydd i mewn i Gymru ac rydym yn datblygu'r achos economaidd ac amgylcheddol o blaid buddsoddi yn High Speed Rail ar hyn o bryd.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud at gynhyrchu pecyn rheoleiddio drafft yng nghyswllt bagiau siopa untro, fel y cyfeirir ato yn natganiad llafar y Gweinidog ar 3 Tachwedd 2009. (WAQ55567)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebril 2011***

Mae'r gwaith o baratoi'r ail ymgynghoriad ar y cynigion i godi tâl am fagiau siopa untro yn mynd rhagddo. Caiff yr ymgynghoriad ei lansio yn y gwanwyn. Mae trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol helpu i lywio'r broses o ddrafftio'r rheoliadau hyn.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion y cyfarfodydd y mae wedi'u cael gyda'r prif randdeiliaid yng nghyswllt y cynigion i godi ardoll am fagiau siopa untro. (WAQ55568)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud at sefydlu grŵp llywio o randdeiliaid allweddol yng nghyswllt cynigion i godi ardoll am fagiau siopa untro, fel y cyfeirir ato yn natganiad llafar y Gweinidog ar 3 Tachwedd 2009. (WAQ55569)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r grŵp llywio yng nghyswllt cynigion i godi ardoll am fagiau siopa untro, fel y cyfeirir ato yn ei datganiad llafar ar 3 Tachwedd 2009. (WAQ55570)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion trafodaethau sy'n cynnwys y grŵp llywio o randdeiliaid allweddol yng nghyswllt cynigion i godi ardoll am fagiau siopa untro, fel y cyfeirir ato yn ei datganiad llafar ar 3 Tachwedd 2009. (WAQ55571)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebril 2011***

Mae fy swyddogion a minnau wedi cael nifer o drafodaethau â rhanddeiliaid allweddol ar sut i ddatblygu'r rheoliadau drafft. Mae'r trafodaethau hyn wedi cynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI), y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB), Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC), Cymdeithas y siopau bwyd parod (ASC), manwerthwyr ac awdurdodau lleol. Yn benodol, mewn cyfarfod â manwerthwyr, CBI a FSB ar 25 Tachwedd amlinellais fy mwriad ar gyfer y rheoliadau hyn a gofyn barn ynglŷn â'u cynnwys. Bu'r cyfarfod diweddaraf rhwng fy swyddogion â BRC, FSB, ACS a manwerthwyr ar 12 Ionawr, a bu cyfarfod ag FSB ar 21 Ionawr i drafod pryderon penodol busnesau bach. Bydd cyfarfodydd a thrafodaethau yn parhau drwy gydol y broses o ddrafftio'r rheoliadau ac yn ystod y broses o roi'r tâl ar waith yn 2011.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o arian y mae'r Gweinidog wedi'i neilltuo ar gyfer Uned Cefnogaeth Rhagnodi Dadansoddol Cymru (WAPSU) ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. (WAQ55563)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Mae'r broses o sefydlu Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU) yn cael ei chefnogi gan raglen Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae tua £0.300m wedi'i glustnodi ar gyfer 2010-11.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o argymhellion Adolygiad Routledge sydd wedi cael eu rhoi ar waith. (WAQ55564)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Rwyf wedi sefydlu Grŵp Gweithredu i ddatblygu'r argymhellion, ac mae'r adroddiad cynnydd interim a gefais gan y Grŵp yn dangos bod yr holl argymhellion wrthi'n cael eu gweithredu. Rwy'n disgwyl yr adroddiad terfynol gan y Grŵp ym mis Mawrth 2010.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa lefel o drafodaeth a gafodd y Gweinidog neu ei swyddogion â Gweinidog y DU cyn gwneud y penderfyniad ynghylch safle Cymru ar becyn iawndal Thalidomide. (WAQ55572)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Ysgrifennodd y Gweinidog dros Wasanaethau Iechyd ataf ym mis Rhagfyr i roi gwybod i mi am ei benderfyniad i ariannu cynllun peilot tair blynedd i ddiwallu anghenion pobl sy'n trechu Thalidomide.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Tai Gwyliau wedi'u Dodrefnu yn ystod y

chwe mis diwethaf. (WAQ55566)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Ysgrifennais at Stephen Timms AS, y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys, ym mis Gorffennaf 2009 i fynegi fy mhryderon am yr effaith bosibl ar fusnesau twristiaeth, yn arbennig y sector hunanarlwyo. Trafodais y mater hwn hefyd â Barbara Follett AS, y Gweinidog dros Dwristiaeth ar y pryd, ar 17eg Medi.